

## **Minutes of the Cabinet sub-committee on EU transition on 11 July 2018**

### **Yn bresennol:**

- Mark Drakeford AC (Cadeirydd Dros Dro)
- Alun Davies AC
- Rebecca Evans AC
- Lesley Griffiths AC
- Ken Skates AC
- Kirsty Williams AC
- Jeremy Miles AC
  
- Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Carys Evans, Pennaeth Swyddfa'r Prif Weinidog
- Diane Dunning, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol (o eitem 4)
- Simon Brindle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Robert Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Deddfwriaeth
- Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
- Sophie Jones, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru
- Ed Sherriff, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Emma Edworthy, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Masnach
- Peredur John, Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Euros Jones, Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Laurian Hubbard, Trefniadau Pontio Ewropeaidd - Cyfathrebu

### **Ymddiheuriadau:**

- Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog

## **Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

1.1. Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

## **Eitem 2: Adroddiad Llafar ar y Datblygiadau Diweddara**

2.1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid am nad oedd y Prif Weinidog ar gael a rhoddodd ddiweddariad cryno ar nifer o ddatblygiadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf.

2.2 Bu amrywiaeth o ddatblygiadau ar lefel yr UE, ar lefel y DU ac ar lefel Cymru. Tynnodd y Cadeirydd sylw at sawl un ohonynt, gan gynnwys goblygiadau cyfarfod Cabinet Llywodraeth y DU yn Chequers a'r trafodaethau cysylltiedig yn y Cydbwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE). Dywedodd y caiff crynodeb ysgrifenedig manylach ei ddsbarthu i Is-bwyllgor y Cabinet er gwybodaeth.

### ***Datblygiadau eraill***

---

2.3 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi mynd i gyfarfod pedairochrog â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chynrychiolwyr o'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ddiweddar. Roedd y trafodaethau yn cynnwys diweddariadau ar Barodrwydd Domestig, y Cyngor Ewropeaidd a gynhaliwyd ym mis Mehefin a'r Bil Pysgodfeydd.

2.4 Ar 5 Gorffennaf, aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i 11eg cyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) pan gafwyd diweddariad ar y negodiadau ynghyd â thrafodaethau ar y Papur Gwyn.

2.5 Nododd yr Is-bwyllgor y diweddariad.

## **Eitem 3: Y Berthynas rhwng y DU a'r EU yn y Dyfodol – Fforwm Gweinidogol**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog Tai ac Adfywio y papur, a oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor nodi'r diweddariad ar y rhan y mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn ei chwarae yn y Fforwm Gweinidogol newydd, yr oedd y Gweinidog yn ei arwain ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd yr Is-bwyllgor eisoes wedi trafod papur ar sefydlu'r Fforwm Gweinidogol, a oedd o dan nawdd y Cydbwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE).

3.2 Cyfarfu'r Fforwm am y tro cyntaf ar 24 Mai ac unwaith eto ar 27 Mehefin ac adroddwyd mai ffocws y cyfarfodydd hyn fu Papur Gwyn arfaethedig y DU. Nodwyd bod y cyfarfod cyntaf yn gadarnhaol ei naws ond mai cyfyngedig oedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU. Fe'i gwnaed yn glir i Lywodraeth y DU ei bod yn hanfodol gweld dogfennau yn gynnwys er mwyn gallu cymryd rhan ystyrlon. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn o hyd ar gyfer yr ail gyfarfod.

3.3 Nododd yr Is-bwyllgor y papur diweddarau.

## **Eitem 4: Dogfen Bolisi ar Gyllid**

4.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur, a oedd yn gofyn i Is-bwyllgor y Cabinet gytuno i'r papur nesaf yn y gyfres o ddogfennau polisi ar Brexit gael ei gyhoeddi: *'Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit'*.

4.2 Roedd y ddogfen bolisi hon yn cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru, a oedd wedi ei gynnal drwy gydol y trafodaethau â Llywodraeth y DU ar Brexit, sef bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau'r un lefel o gyllid yr UE ar ôl Brexit â chyn hynny, heb i Lywodraeth y DU gyfyngu ar y cyllid hwnnw mewn unrhyw ffordd na chymryd cyfran ohono.

4.3 Yn ogystal, roedd yn allweddol parhau â mynediad at rwydweithiau a rhaglenni'r UE er mwyn cefnogi economi Cymru. Ymhlith y rhain roedd: rhaglenni cydweithredu rhyngranbarthol yr UE; Horizon 2020; ERASMUS+; a Rhaglen Ewrop Greadigol. Roedd yn hollbwysig parhau i gael mynediad at gyllid ac arbenigedd Banc Buddsoddi Ewrop hefyd.

4.4 Roedd y papur hefyd yn ceisio agor trafodaeth ar setliad cyllidol y dyfodol ledled y DU, oherwydd byddai angen amgylchedd ariannol a rheoleiddiol newydd ar ôl Brexit, i gymryd lle'r un a ddarperir gan yr UE ar hyn o bryd. Roedd y papur yn ailadrodd galwad Llywodraeth Cymru i roi system newydd yn seiliedig ar reolau yn lle fformiwla Barnett, ochr yn ochr â diwygio'r systemau rhynglywodraethol a chan gynnwys dull datrys anghydfodau annibynnol.

4.5 Nododd yr Is-bwyllgor y ddogfen bolisi a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar 16 Gorffennaf.

## **Eitem 5: Diweddariad ar Bolisi Masnach**

5.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur, a oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor nodi datblygiadau diweddar ym maes polisi masnach ac a oedd yn ystyried y goblygiadau posibl i Gymru.

5.2 Nododd yr Is-bwyllgor y papur diweddarau.

## **Eitem 6: Cael Mynediad Llawn a Dirwystr at Farchnad Sengl yr EU**

6.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y papur, a oedd yn nodi ac yn ystyried yn fanylach safbwynt clir a chyson Llywodraeth Cymru ers refferendwm yr UE i bwysu am fynediad llawn a dirwystr at y farchnad sengl. Dyma'r ffordd orau o ddiogelu swyddi a'r economi yng Nghymru.

6.2 Byddai'n bwysig, wrth i'r negodiadau rhwng y DU a'r UE fynd rhagddynt, fod yn gyson ar faterion penodol, a fyddai'n arwain at sicrhau'r nod yn y pen draw o gael mynediad llawn a dirwysr at farchnad sengl yr UE.

6.3 Nododd yr Is-bwyllgor y papur diweddarau.

## **Eitem 7: Diweddariad ar Ddeddfwriaeth**

7.1 Cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol y papur, a oedd yn rhoi diweddariad ar y goblygiadau deddfwriaethol yn sgil Brexit.

7.2 Adroddwyd bod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin. Roedd y Ddeddf derfynol wedi ymdrin â'r pryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gyfres o welliannau ac roedd ymrwymadau pellach wedi eu gwneud drwy'r Cytundeb Rhynglywodraethol.

7.3 Nododd yr Is-bwyllgor y diweddariad.

## **Eitem 8: Diweddariad ar Gronfa Bontio'r UE**

8.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y papur, a oedd yn crynhoi Cyfran Gyntaf Cronfa Bontio'r UE ac a oedd yn ceisio cynigion pellach am Ail Gyfran.

8.2 Roedd papur a ystyriwyd yn y cyfarfod diwethaf ar 16 Mai wedi amlinellu'r Gronfa ac wedi tynnu sylw at ei phrif ddiben, sef helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner i gynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau Brexit. Ers hynny, roedd cyhoeddiadau wedi bod yn gyhoeddus i gymeradwyo dyraniadau a ffrydiau cyllido, gan gynnwys wyth cynnig â thua £7m o gyllid, ac roedd y Prif Weinidog wedi rhannu manylion y cymorth ariannol ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth a physgodfeydd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol Undeb Amaethwyr Cymru ar 18 Mehefin. Byddai'r meysydd ffocws hyn yn creu sylfaen fasnachu gryfach i fusnesau, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

8.3 Mae'n amlwg mai bwriad y Gronfa oedd helpu busnesau ac eraill, ond nid oedd yn gallu diogelu'n llawn rhag effeithiau 'dim cytundeb' na Brexit caled.

8.4 Cytunodd Is-bwyllgor y Cabinet ar y papur a chymeradwyodd gynigion pellach ar gyfer cymorth ariannol.